Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

7 Mawrth 2024

Delyth Jewell AS,
Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Annwyl Delyth

**Parthed: Cymorth pontio'r Adolygiad Buddsoddi**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Chwefror ynglŷn â'r uchod. Rwyf wedi ateb isod bob un o'ch cwestiynau.

1. **Faint o arian y mae Cyngor y Celfyddydau wedi'i ddyrannu ar gyfer arian pontio?**

   Rydym wedi cyhoeddi ein Cymorth Pontio i Sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru. Mae'n rhoi cyngor am faint y gall sefydliad cymwys ymgeisio amdano. Wrth ystyried hyn a nifer y sefydliadau sy'n gymwys i gael cymorth, rydym wedi dyrannu cyllideb o £660,000.

2. **Faint o geisiadau sydd wedi'u gwneud am arian pontio?**

   Mae swyddogion yn cynnal trafodaethau gyda'r holl sefydliadau cymwys. Hyd yn hyn, rydym wedi derbyn 2 gais am arian pontio a'r ddau wedi'u cymeradwyo. Y dyddiad cau ymgeisio yw 31 Mawrth 2024.

3. **Beth yw'r "cyngor a'r arbenigedd ychwanegol a phenodol"?**

   Mae hyn yn cyfeirio at gael cyngor allanol lle bo'n briodol i anghenion y sefydliad, yn ogystal â chyngor gan swyddogion Cyngor y Celfyddydau. Bydd y cyngor yn cynorthwyo'r sefydliadau i ddadansoddi pethau'n ddiagnostig i ffocysu eu cais am arian pontio yn y ffordd orau.

4. **Faint o geisiadau sydd wedi'u gwneud ar gyfer cyngor o'r fath?**

Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL
Ffôn: 03301 242733
Ffacs: 029 2044 1400
SMS: 07797 800504
Gwefan: www.celf.cymru

Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL
FFÔN: 03301 242733
Ffacs: 029 2044 1400
SMS: 07797 800504
Gwefan www.arts.wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Swyddfeydd Lleol/Local Offices:
Caerdydd/Cardiff, Bae Colwyn/Colwyn Bay, Caerfyrddin/Carmarthen
Rhif Rhif Elusen Gofrestredig/Rhif Elusen Gofrestredig/Rhif Elusen Gofrestredig:
1034245

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at oedi.
Rydym yn croesawu gohebiaethau yn Gymraeg a Saesneg, ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Hyd yn hyn, mae 3 sefydliad wedi gofyn am y cyngor ac ar hyn o bryd maent yn ei drafod gydag ymgynghorydd.

5. **Pryd bydd penderfyniadau'n digwydd ar geisiadau am arian pontio?**

   Rydym yn ystyried ceisiadau a phenderfynu arnynt wrth iddynt ein cyrraedd. Mae'r ddau gais a gawsom hyd yma eisoes wedi'u cymeradwyo a dyfarnwyd arian iddynt. Mae gan sefydliadau hyd at 31 Mawrth 2024 i ymgeisio.

6. **Pryd bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael arian pontio?**

   Mae'r arian ar gael i'r ymgeisydd yn syth ar ôl cymeradwyo ei gais. Wrth gwrs, bydd gan sefydliadau eu gofynion penodol. Felly, bydd arian yn cael ei dalu ar y pryd sy'n fwyaf priodol i'r ymgeisydd yn ôl y wybodaeth sydd yn ei gais.

Rydym yn cynnal trafodaethau gyda phob un o'r 9 sefydliad sy'n gymwys i gael cymorth pontio.

Gobeithio y bydd y wybodaeth yma'n ateb eich cwestiynau. Rhowch wybod imi os gallaf gynnig unrhyw gymorth pellach.

Yn gywir

Dafydd Rhys
Prif Weithredwr